



Twyni tywod, môr a bywyd gwylt

Pellter: 5km / 3 milltir

Amser: Tua 1-2 awr

Parcio a chychwyn: Maes parcio Traeth Barcbi (£)

Cyf. Grid: SJ068839, Map OS Explorer 265

Graddfa: Hawdd (gwastad, ond gall cerdded ar dywod fod yn flinedig, gwyliwch rhag y llanw)

Cyfleusterau: Nant Hall Hotel, ffôn: 01745 886766, a phopeth ym Mhrestatyn

Mae'r daith hon yn dilyn rhan o'r Llwybr Arfordir Cymru newydd.

Sandunes, sea and wildlife

Distance: 5km / 3 miles

Time: Allow 1-2 hours


Parking and start: Barkby Beach car parks (£)

Grid ref: SJ068839, Explorer map 265

Grade: Easy (flat but walking through sand can be hard work and beware of the tides)

Facilities: Nant Hall Hotel, tel: 01745 886766, and all in Prestatyn

This walk follows part of the new Wales Coastal Path.



Y Daith Gerdded

Cyn cychwyn, cofiwch edrych ar y taflenni llanw er mwyn ichi ddewis y daith briodol. Peidiwch â dewis y llwybr 'llanw isel' dros y traeth pan fo'r llanw'n dod mewn. I gael gwybodaeth am y llanw, ewch i www.bbc.co.uk/weather/coast/tides neu ffoniwch Ganolfan Croeso y Rhyl ffôn: 01745 355068.

Llwybr Llanw Isel

1a. O faes parcio Traeth Barcbi, wyneb wch y môr, troi i'r dde a cherdded ar hyd y traeth. Anwybyddwch y ddau lwybr arwyddedig i'r twyni. Trowch i'r dde wrth y trydydd mynegbost a cherdded i fyny'r byrddau pren i'r twyni tywod. Ar ben y twyni, ewch i'r chwith a dilyn y llwybr sy'n ymdroelli ar ben y twyni gyda'r golygfeydd dros y bae ar y chwith.

Ewch ymlaen ar hyd ben y twyni wrth iddynt ymledu'n raddol. Bydd rhwydwaith o lwybrau bach yn croesi'r twyni ac mae'n anodd rhoi cyfarwyddiadau manwl, ond dylech gerdded i'r

dde tua'r cwrw golff. Anelwch am lyn bach mewn tir gwastad rhwng y twyni mewnol a'r rhai allanol.

2a. Trowch i'r chwith wrth y mynegbost yn union cyn y llyn, arwyddwyd 'Traeth Gronant' a dilyn y llwybr ar draws y twyni, gan anelu at banel bach pren (am forwenoliaid bach). Ewch ymlaen ar draws y twyni ac i'r traeth. Trowch i'r chwith a cherdded ar hyd y traeth ac yn ôl i'r maes parcio.

Llwybr Penllanw

1b. O'r maes parcio y tu ôl i'r Clwb Hwyllo, cerddwch ar hyd ochr y Cwrw Golff. Bydd y twyni ar y chwith. Ewch i'r chwith i fyny'r byrddau pren i ben y twyni. Ewch i'r dde ar hyd y twyni a dilyn y llwybr sy'n ymdroelli ar hyd pen y twyni gyda'r golygfeydd dros y bae ar y chwith. Ewch ymlaen ar ben y twyni wrth iddynt ledu'r raddol. Bydd rhwydwaith o lwybrau bach yn croesi'r twyni ac mae'n anodd rhoi cyfarwyddiadau manwl ond pan fo'n benllanw mae'n bwysig cadw i'r dde y tu uchaf i'r clwb golff am fod y rhan yn y canol yn wlyb iawn. Anelwch am y llyn bach sydd ar dir gwastad rhwng y twyni mewnol a'r rhai allanol.

2b. Ewch ymlaen wrth y mynegbost arwydd 'Presthaven', gan gerdded ar ochr dde'r llyn. Rhan o'r ffordd ar hyd ymyl y llyn, trowch i'r dde, arwydd 'Presthaven', a dilyn y llwybr drwy'r twyni i'r gwelyau brwyn. Croeswch y bont fechan a throi i'r dde i'r llwybr tarmac wrth Presthaven Holiday Park. Dilynwch y llwybr clir hwn drwy'r cwrw golff

Ar benllanw, bydd nifer fawr o rydwyr, gwylanod a mulfrain yn ymgynnull ar y marian.

At high tide large numbers of waders, gulls and cormorants gather on the shingle.



Pioden Fôr / Oystercatcher



Gronant

gan fynd heibio'r tŷ clwb ar y chwith. Ewch ymlaen ble mae'r llwybr tarmac yn cyfarfod â'r ffordd, gan gerdded heibio tai ar y chwith. Ar y gyffordd, trowch i'r dde a dilyn y ffordd hon yn ôl i faes parcio traeth Barcbi.

The Walk

Be sure to check tide times before setting out to select the appropriate walk. Do not attempt the low water route along the beach when the tide is coming in.

For tide information visit www.bbc.co.uk/weather/coast/tides or contact Rhyl TIC, tel: 01745 355068.



© Mitchell-Lisie

Morwennol fach / Little tern

Low tide route

1a. From Barkby Beach car park, facing the coast, turn right and walk along the shore, ignoring two signed paths into the dunes. Turn right at the third fingerpost and walk up a wooden boardwalk into the dunes. On the top of the dunes turn left and follow the path that meanders along the top of the dunes with wide views across the bay on the left.

Continue ahead along the top of the dunes as they gradually widen. A network of small paths criss-cross the dunes and it is hard to give exact route directions but keep towards the right above the golf-course. Head for a small lagoon in the flat land between the inner and outer dunes

2a. Turn left at a finger post just before the lake, signed Gronant Beach, and follow path across the dunes, heading for a wooden panel (about Little Terns). Then continue across the dunes to the beach. Turn left and walk along the beach back to the car park.

High tide route

1b. From the car park behind Prestatyn Sailing Club walk alongside the Golf Course, with the dunes on the left. Turn left up the wooden boardwalk to the top of the dunes. Turn right along dunes and follow the path that meanders along the top of the dunes with wide views across the bay on the left. Continue ahead along the top of the dunes as they gradually widen. A network of small paths criss-cross the dunes and it is hard to give exact route directions but at high tide it is important to keep to the right above the golf-course as the central area becomes very waterlogged. Head for a small lagoon in the flat land between the inner and outer dunes.

2b. Continue ahead at the fingerpost, signed Presthaven, walking on the right-hand side of the lagoon. Partway along the edge of the lagoon turn right, signed Presthaven, and follow path through dunes and reedbeds. Cross a small bridge and turn right onto a tarmac path near Presthaven Holiday Park. Follow this clear path through the golf course, passing the clubhouse on the left. Continue ahead where the tarmac path meets a road, walking past houses on the left. At road junction turn right and follow this road back to Barkby Beach car park.



Ar gerrig y traeth mae'r forwennol fach brin yn nythu, aderyn llai ac eiddilach na'r wylan. Yma mae nythfa fwyaf Cymru. Edrychwch amdanynt yn hofran dros y môr neu'n plymio am bysgod, ond cofiwch beidio amharu ar yr adar sy'n magu cywion.

The rare little tern nests on the shingle. Their colony is the largest in Wales. They are smaller and more delicate than gulls. Look for them hovering above the sea or diving for fish, but take care not to disturb the breeding birds.

*Cyw ac wy'r forwennol fach
Little tern chick and egg*

Twyni Tywod Gronant

Nid yw twyni tywod yn sefydlog, maent yn newid eu siâp yn barhaol wrth i'r gwynt chwythu'r tywod o un rhan i'r llall. Mae'r twyni ifanc a ffurfir yn ymyl glan y môr yn sypiau o dywod rhydd mewn gwirionedd. Yn raddol, mae glaswellt gwydn a elwir 'moresg' yn dechrau cytrefu ar y pentyrrau moel. Mae'r gwreiddiau'n rhwymo gronynnau'r tywod ac yn dechrau sadio'r twyni. Gall planhigion eraill dyfu ar y twyni mwy sefydlog - y rhai pellach o'r môr- a bydd blodau'n garped drostynt yn yr haf. Mae'r blodau hyn yn denu gloÿnnod byw deniadol, y gwyfyn byrnet coch a du a myrdd o drychfilod eraill i fwydo ar y neithdar. Cofiwch gadw at y llwybrau i'r twyni er mwyn lleihau'r erydu.

Gronant dunes

Sand dunes are not permanent. They are constantly changing shape as the wind blows sand from one area and deposits it elsewhere. Young dunes, formed near the seashore, are really just mounds of loose sand. Gradually a tough grass called marram begins to colonise the bare mounds. Its roots bind the grains of sand together, which begins to stabilise the dunes. Other plants can grow on the more stable dunes and the oldest dunes - those furthest from the sea - are carpeted in flowers during the summer. The dune flowers attract colourful butterflies, day-flying red and black burnet moths and a host of other insects to feed on their nectar. Please keep to the paths in the dunes to reduce dune erosion.

